
# Llyngyr yr iau a'r rwmen mewn gwartheg

**Mae llyngyr yr iau yn barasit sy'n heintio iau a dwythellau bustl gwartheg. Bydd yr haint yn effeithio cyfradd tyfu a chynhyrchiant llaeth. Yn gyffredinol, nid yw llyngyr y rwmen yn achosi arwyddion clinigol oni bai bod nifer fawr yn y coluddyn.**

Mae llyngyr yn effeithio gwartheg a defaid. Mae gan lyngyr yr iau cylch bywyd anuniongyrchol, ac yn cael ei drosglwyddo gan falwen fwd, bydd y cylch bywyd hefyd yn dibynnu ar y tymheredd a chyfanswm y glaw. Mae gwartheg yn debygol o gael eu heintio yn ystod yr hydref. Mae llai o gydnabyddiaeth am lyngyr y rwmen ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'n ymddangos ei fod yn dod yn eithaf cyffredin. Mae'n cael ei drosglwyddo gan yr un falwen â llyngyr yr iau. Gall y llyngyr ifanc achosi haint clinigol, ond nid yw'r llyngyr aeddfed yn gwneud niwed mawr.




*Ffigur 1 COWS*

Gall llyngyr yr iau beri bod gan wartheg archwaeth sydd wedi'i lleihau gall arwain at gyflwr corff tlotach, cwymp mewn cynhyrchiant llaeth ac effaith negyddol ar ffrwythlondeb. Gall hefyd olygu bod gwartheg yn fwy agored i heintiau eraill. Gall niwed i'r iau hefyd sbarduno Clefyd Du sy'n glefyd angheuol clostridiol.

## Triniaeth a rheolaeth

Cyn trin parasitiaid yn y fuches mae'n bwysig eich bod yn gwybod beth yw'r risg o'r clefyd ar eich fferm, ac yn ymwybodol o gyfnod yr haint. Trwy fod yn ymwybodol o hyn, gallwch reoli'r porthiant a chynllunio pa anifeiliaid fydd yn pori ym mhle er mwyn lleihau'r risg. Efallai y bydd yn cael ei argymell i ffensio ardaloedd gwlyb/llynnoedd/pyllau er mwyn lleihau'r risg y bydd da byw yn codi'r llyngyr yr iau.

Os ydych chi'n amau  pla o lyngyr yr iau, dylech chi brofi (cyfrif wyau ysgarthol ac mewn rhai achosion prawf gwaed), a'i drin yn unol â hynny. Wrth brofi, bydd eich milfeddyg yn cynghori'r ffordd orau o weithredu ar gyfer triniaeth. Gyda thriniaeth mae'n bwysig dosio'n gywir er mwyn osgoi ymwrthedd gwrthlyngyrol.

Dylid defnyddio triniaethau sy'n effeithiol yn erbyn llyngyr anaeddfed yn yr hydref neu ddechrau'r gaeaf, gellir defnyddio cynhyrchion eraill yn hwyrach yn y gaeaf a/neu yn y gwanwyn a dechrau'r haf i atal wyau llyngyr yr iau for ar y tir pori fydd yn heintio'r malwod.

*Ariannwyd y Rhaglen Datblygu Cig Coch gan Raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, ag arian gan y Gronfa Amaethyddol Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.*